

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Newidiadau i ofynion gosod targedau ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion
Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Paul Moyle, Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Adran:	Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):	Steve Vincent
Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Kirsty Williams, Y Gweinidog Addysg
Dyddiad Dechrau:	29 Awst 2018

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a champau gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru. Sut ydych chi / sut y byddwch chi'n cynnwys pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y camau gweithredu arfaethedig, gydol y polisi a'r cylch cyflenwi?

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r proffesiwn addysgu, llywodraeth leol, consortia rhanbarthol, Estyn, yr undebau ac arbenigwyr rhyngwladol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r system atebolrwydd bresennol. Mae'r sefyllfa o ran gofynion gosod targedau ac i ba raddau y maent yn cael eu rheoli a/neu'n destun deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru yn nhrefniadau Gwerthuso a Gwella'r dyfodol yn rhan o'r trafodaethau a'r datblygiadau diwygio ehangach sy'n mynd rhagddynt. Rydym yn bwriadu sicrhau y bydd y trefniadau hyn yn cael eu profi a'u bod ar waith yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn y cyfamser, nid yw'r gofynion presennol ar gyfer gosod targedau yn gyson â'r trefniadau pontio arfaethedig ar gyfer adrodd ar berfformiad mewn ysgolion.
2. Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer system atebolrwydd addysg sy'n deg, yn gydlynol, yn gymesur, yn dryloyw, ac yn seiliedig ar ein gwerthoedd cyffredin ar gyfer addysg yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i ni weithredu mewn ffordd gydlynol sy'n osgoi canlyniadau nas bwriedir, ac yn helpu i godi safonau ym mhob ystafell ddosbarth ac ar gyfer pob un o'n dysgwyr. Mae codi safonau, lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad a sicrhau bod y system yn destun hyder ymysg y cyhoedd ac yn destun balchder cenedlaethol yn ganolog i'n cynllun gweithredu.
3. Fel rhan o'n cynllun gweithredu, rydym wedi cytuno ar drefniadau pontio ar gyfer gwerthuso gydag ysgolion er mwyn helpu i gryfhau trefniadau cydweithio rhwng ysgolion a chodi safonau ar gyfer dysgwyr o bob math. Er mwyn cefnogi'r trefniadau pontio hyn, rydym eisoes wedi gwneud nifer o newidiadau:
4. Rydym wedi ymgynghori ar welliannau i gyfres o reoliadau, gan fynd ati i'w gwella wedyn, er mwyn atal cyhoeddi, fel mater o drefn, data Asesiadau Athrawon a data Profion Cenedlaethol a Phrofion Rhifedd ar lefel ysgol, awdurdod lleol a rhanbarthol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ysgolion yn gallu canolbwyntio ar asesu disgyblion, yn hytrach na defnyddio data fel rhan o system atebolrwydd budd uchel. Mae'r rheoliadau sydd wedi'u gwella yn cynnwys *Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011* ("Rheoliadau Gosod Targedau").
5. Rydym wrthi'n ymgynghori ar newidiadau pellach i'r Rheoliadau Gosod Targedau er mwyn adlewyrchu newidiadau dros dro i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a

gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Mai 2018. Mae'r mesurau perfformiad dros dro ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 wedi'u datblygu gyda'r sector addysg ac maent yn canolbwyntio mwy ar godi ein dyheadau ar gyfer dysgwyr o bob math. Byddant yn disodli cyfres 2018 o fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys mesurau trothwy Lefel 2, Lefel 2 cynhwysol¹ a Lefel 1, o 2019 (h.y. canlyniadau disgyblion sy'n cyrraedd diwedd blwyddyn 11 yn ystod haf 2019).

6. Fel y nodwyd uchod, nid yw'r Rheoliadau Gosod Targedau Ysgolion presennol yn gyson â'r mesurau dros dro newydd (mae'r Rheoliadau hynny'n cyfeirio'n benodol at y mesurau Cyfnod Allweddol 4 presennol a fydd yn darfod cyn bo hir). Nid yw hyn yn gwneud synnwyr bellach gan na fyddai targedau o'r fath yn ymarferol nac yn fesuradwy, ac na fyddant yn hwyluso prosesau hunanwerthuso a gwella effeithiol. Felly, mae angen gwneud newid yn syth ar gyfer y cyfnod dros dro, cyn cyflwyno'r trefniadau Gwerthuso a Gwella newydd a chyn gwneud unrhyw newidiadau gofynnol i ofynion gosod targedau statudol. Bydd angen diwygio'r Rheoliadau Gosod Targedau i wneud hyn.
7. Mae'r gofynion presennol ar gyfer gosod targedau yn benodol iawn, gan roi pwyslais anghymesur ar gyflawni mesurau perfformiad meintiol. Gall hyn gyfyngu ar allu'r ysgol i osod targedau dilys sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau gwirioneddol ar gyfer gwelliant yn eu cyd-destun unigol eu hunain. Hefyd, mae adborth gan y sector yn nodi bod angen rhagor o ymreolaeth i ysgolion. Am y rhesymau hyn, ni fyddai'n briodol chwaith disodli'r targedau penodedig presennol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4 â gofynion penodedig tebyg yn ymwneud â'r mesurau perfformiad dros dro, yn enwedig o ystyried eu natur dros dro.
8. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion uchod dros dro, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno rheoliadau newydd i ddiwygio'r gofynion gosod targedau presennol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'r cynnig yn ymwneud â dileu'r gofyniad i gyrff llywodraethu ysgolion osod targedau perfformiad seiliedig ar fesurau, a chynyddu nifer y targedau amhenodedig gofynnol y mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion eu gosod eisoes ar sail hunanwerthuso ysgolion.
9. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fyddai angen i gyrff llywodraethu ysgolion barhau i osod targedau neu gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â'r cyflawniadau canlynol a ragnodir:
 - Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 1
 - Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys cymhwyster perthnasol cymeradwy yn y Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a Mathemateg ("Lefel 2 cynhwysol")

¹ Lefel 2 cynhwysol yw'r trothwy Lefel 2 sy'n cynnwys cymhwyster perthnasol cymeradwy yn y Gymraeg iaith gyntaf neu'r Saesneg a Mathemateg

10. Byddai angen i gyrff llywodraethu ysgolion osod targedau amhenodedig ychwanegol yn seiliedig ar werthuso perfformiad disgyblion o'i gymharu â'r flwyddyn ysgol flaenorol. O dan y rheoliadau presennol, mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion osod tri tharged yn y modd hwn, a byddai'r cynnig hwn yn cynyddu'r gofyniad i chwe tharged, gan gynnwys hyblygrwydd ychwanegol i dargedau fod yn seiliedig ar hunanwerthuso ehangach mewn ysgolion, yn hytrach na chael eu cyfyngu i werthuso asesiadau athrawon yn unig.
11. Bydd y cynigion hyn yn dileu'r ddyletswydd afresymol ar gyrff llywodraethu ysgolion i osod targedau yn erbyn mesurau na fyddant yn cael eu defnyddio bellach. Wrth wneud hyn, rydym yn symud tuag at system o osod targedau sy'n llai rhagnodol ac yn fwy hyblyg, gan annog ysgolion i osod targedau sy'n seiliedig ar hunanwerthuso ac yn canolbwyntio ar flaenoriaethau gwirioneddol ar gyfer gwelliant yng nghyd-destun unigol yr ysgol.
12. Y bwriad yw sicrhau bod y system well hon ar gyfer gosod targedau, ynghyd â'r camau gweithredu sy'n deillio ohoni, yn codi safonau addysgol ac yn gwella canlyniadau i ddysgwyr. O ganlyniad, mae'r cynigion yn cyfrannu at thema allweddol Uchelgais a Dysgu trwy gynorthwyo pobl ifanc i fanteisio'n llawn ar eu potensial.
13. Bydd y polisi hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at rai o nodau *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, yn enwedig *Cymru lewyrchus*. Rydym wedi datblygu'r cynigion hyn mewn ffordd gydweithredol trwy ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol a Chonsortia rhanbarthol.
14. Mae gan ysgolion brofiad o osod targedau yn y modd hwn eisoes. Heb y diwygiadau arfaethedig, byddai angen statudol o hyd i ysgolion osod targedau yn erbyn mesurau perfformiad sydd wedi darfod, a all fod yn afrealistig ac yn anodd ei fesur yn fwy hirdymor, gan wastraffu amser ac adnoddau i bawb.

ADRAN 7. CASGLIAD

7.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

15. Prif amcan y cynigion dros dro hyn yw mynd i'r afael â'r diffyg cysondeb ar hyn o bryd rhwng y gofynion presennol ar gyfer gosod targedau, a'r mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 dros dro sydd i'w hadrodd o 2019 ymlaen a fyddai, fel arall, yn arwain at ofynion afresymol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion.

16. Wrth ddatblygu'r newidiadau arfaethedig, rydym wedi ystyried adborth gan ysgolion sydd wedi mynegi pryder ynglŷn â gofynion i barhau i osod targedau yn erbyn mesurau perfformiad ysgolion a fydd yn darfod maes o law. Hefyd, mae adborth ehangach wedi dangos cefnogaeth i'r cysyniad o ysgolion yn cael rhagor o hyblygrwydd ac ymreolaeth i reoli eu materion eu hunain.

17. Hefyd, rydym wedi cydweithio ag Awdurdodau Lleol a chonsortia ar gynigion a chynlluniau dros dro ar gyfer rheoli gofynion gosod targedau ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol wrth i ni gyflwyno mesurau perfformiad dros dro yng Nghyfnod Allweddol 4.

18. Cynhelir ymgynghoriad ag ystod o randdeiliaid yn ymwneud â'r cynnig, a bydd yr asesiadau effaith perthnasol yn cael eu diweddarau wrth ddatblygu'r cynigion. Hefyd, bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnwys yng nghylchlythyr Dysg a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

19. Nodwyd y bydd yr argymhellion yn cael yr effaith fwyaf ar gyrrff llywodraethu ysgolion, penaethiaid, ymarferwyr, Awdurdodau Lleol, consortia a dysgwyr.

20. Fel un o ysgogwyr allweddol y newidiadau, mae effeithiau cadarnhaol wedi'u nodi trwy ddileu gofyniad afresymol i osod targedau yn erbyn mesurau perfformiad ysgolion sydd wedi darfod, gan osgoi gwastraffu adnoddau ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a'r rhai sy'n ymwneud â'r broses o osod targedau.

21. Yn y lle cyntaf, rhagwelir na fydd y newidiadau yn cael llawer o effaith negyddol yn y tymor byr oherwydd y costau posibl sy'n gysylltiedig â'r amser sydd ei angen i athrawon, penaethiaid ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion ddod yn gyfarwydd â'r rheoliadau newydd a'r gofynion diwygiedig. Rhagwelir y bydd y gost hon yn isel iawn oherwydd natur syml a graddfa fach y newidiadau dros dro hyn.

22. Bydd y cynnig yn sicrhau rhagor o hyblygrwydd ar gyfer ysgolion, gan hwyluso targedau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau gwirioneddol ar gyfer gwelliant yng nghyd-destun unigol yr ysgol. O ganlyniad, disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol gymedrol ar gyrff llywodraethu ysgolion, penaethiaid, athrawon ac ymarferwyr trwy sicrhau bod ganddynt fwy o hyblygrwydd i'w gwella eu hunain a'u rheoli eu hunain.

23. Mae gan ysgolion brofiad o osod targedau amhenodedig yn y modd hwn eisoes (mae'n rhaid iddynt osod tri tharged amhenodedig o dan y rheoliadau), a'r cwbl y mae'r cynigion yn ei wneud yw cynyddu nifer y targedau ac yn ehangu hyblygrwydd o safbwynt y wybodaeth sy'n sylfaen i'r targedau. Mewn cyferbyniad, heb y gwelliannau arfaethedig, byddai angen statudol o hyd i ysgolion osod targedau yn erbyn mesurau perfformiad sydd wedi darfod, sy'n afrealistig ac yn anodd i'w mesur, gan wastraffu amser ac adnoddau, fel y nodwyd uchod. Nodwyd hyn fel effaith gadarnhaol.

24. Hefyd, mae effeithiau cadarnhaol wedi'u nodi ar gyfer plant a phobl ifanc gan y dylai targedau ganolbwyntio mwy ar wneud cyfraniad cadarnhaol at addysg dysgwyr. Disgwylir i'r targedau gwell hyn, ynghyd â'r camau gweithredu i'w cyflawni, gael effaith gadarnhaol gymedrol ar blant a phobl ifanc trwy wella safonau addysgol a gwella deilliannau i ddysgwyr. Mae'r effeithiau ar hawliau plant wedi'u hystyried mewn Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân, a nodwyd bod y cynigion yn cefnogi hawliau CCUHP, yn benodol: Erthygl 28 – Hawl i Addysg, ac Erthygl 29 – Nodau Addysg.

25. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar grwpiau penodol o bobl neu gymunedau mewn ffordd wahanol, a dylai targedau fod yn fwy cynhwysol trwy beidio â chanolbwyntio ar fesurau perfformiad trothwyon. Mae adborth gan ysgolion yn nodi nad yw'r mesurau trothwyon presennol yn gynhwysol ac nad ydynt yn ystyried dysgwyr unigol.

26. O ganlyniad i ddeilliannau gwell ar gyfer dysgwyr, dylai hyn arwain at ragor o gyfleoedd ar gyfer addysg bellach, mynediad i swyddi gwell, ac felly ymgeiswyr gwell ar gyfer busnesau. O ganlyniad, mae'r asesiad yn nodi y bydd gan y cynnig effaith hirdymor fach ar fusnesau a'r economi.

27. Hefyd, nodwyd y gallai amrywiad ehangach posibl rhwng targedau arwain at gostau cymdeithasol tymor byr i awdurdodau lleol, consortia ac Aelodau Etholedig. Ar wahân i ddiweddariadau priodol i systemau, mae hyn yn deillio o fethu cyfuno targedau lefel ysgol i'r un graddau at ddibenion adrodd ar lefel Awdurdod Lleol neu lefel ranbarthol â phwyllgorau craffu a deiliaid portffolios yn sicrhau bod darparwyr yn atebol. Fodd bynnag, mae'r ymddygiad presennol yn arwain at bwysau ychwanegol ar ddarparwyr a all olygu nad yw'r cwricwlwm mwyaf priodol yn cael ei gynnal i ddysgwyr a bod gormod o bwyslais ar allbynnau mesur perfformiad. Felly, wrth hyrwyddo trefn sy'n wahanol i'r ymarfer hwn, disgwylir i'r cynnig arwain at fudd hirdymor cymedrol ac effeithiau cadarnhaol ar gyfer ysgolion.

28. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi ar gyfer unigolion neu gymunedau gwledig, iechyd, preifatrwydd, llesiant diwylliannol, yr iaith Gymraeg, y trydydd sector, cyfiawnder neu'r amgylchedd.

7. Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

29. Y bwriad yw sicrhau bod y system well o osod targedau sy'n cael ei chreu gan y cynnig, ynghyd â'r camau gweithredu sy'n deillio ohoni, yn gwella safonau addysgol ac yn gwella deilliannau i ddysgwyr. O ganlyniad, mae'r cynigion yn cyfrannu at thema allweddol Uchelgais a Dysgu trwy gynorthwyo pobl ifanc i fanteisio'n llawn ar eu potensial.

30. Bydd y cynnig yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at rai o nodau *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, yn enwedig Cymru lewyrchus. Rydym wedi datblygu'r cynigion hyn mewn ffordd gydweithredol trwy ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol a Chonsortia rhanbarthol, gan weithredu ar sail adborth gan ysgolion.

31. Bydd yr effeithiau negyddol tymor byr ar Awdurdodau Lleol, consortia rhanbarthol ac Aelodau Etholedig trwy amrywiad ehangach targedau, a pheidio â defnyddio cydgasgliadau syml o ddeilliannau cyflawniad ysgolion mewn perthynas â pherfformiad ysgolion ar lefel ranbarthol, yn cael eu rheoli a'u lleihau trwy waith cyson â rhanddeiliaid i newid ymddygiad. Mae manteision y dull gweithredu hwn a drafodwyd uchod yn drech na'r effeithiau negyddol tymor byr.

7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

32. Cynnig dros dro yw hwn, a bydd y rôl fwy hirdymor a'r sefyllfa ddeddfwriaethol o safbwynt gosod targedau ysgolion yn cael eu hystyried fel rhan o'r trefniadau Gwerthuso a Gwella sy'n cael eu llunio ar y cyd gyda rhanddeiliaid amrywiol. Bydd canlyniad y newidiadau o'r cynigion hyn yn cael eu hystyried fel rhan o hyn.